Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2019 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy

YN BRESENNOL
Richard Fairhead, Cymdeithas Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r Gweithwyr (Cadeirydd)
Y Cyng. Bryan Apsley, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Julie Brown, Pennaeth Cyllid, yn Cynghori
Ken Finch, Trysorydd, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. John Brynmor Hughes, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Helen MacArthur, PSC, yn Cynghori
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng.J Rodney Skelland, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, yn Cynghori

YMDDIHEURIADAU
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Ruth Simmons, PSTC, yn cynrychioli'r Gweithwyr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Aelodaeth –nodwyd bod angen i Aelodau newydd gwblhau'r hyfforddiant ar-lein cyn gynted â phosibl, a chytunwyd y byddai'r Pennaeth Cyllid yn cyfarfod ar wahân gyda Blythe Roberts, Duncan Stewart-Ball a Jane Honey i gynnig cymorth.

4 ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

4.1 Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf ar y canlynol:

- Grŵp Pensiynau Diffoddwyr Tân Cymru Gyfan

- Adran Actiwari'r Llywodraeth –Prisiad Pensiwn
- Buddiannau Pensiwn Ychwanegol
- Y Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP) – y cwynion a dderbyniwyd
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am fwletinau a chylchlythyrau FPS.

- Y deunydd cyfathrebu a anfonwyd.

4.2 Nodwyd bod 47 o weithwyr newydd wedi ymuno ym mis Ebrill 2018, a dim ond un oedd wedi dewis optio allan o'r broses cofrestru'n awtomatig am bensiwn. Mae mwy o staff yn ymddeol y tu allan i'r meini prawf arferol, a'r adborth a gafwyd yw bod hyn oherwydd y cyfraddau cyfrannu uchel maen nhw'n eu talu.

4.3 Gofynnwyd i aelodau nodi hefyd:

- y bydd y weithdrefn datrys anghydfod mewnol yn cael ei hadolygu a'i chyflwyno i gyfarfod y BPLl yn y dyfodol i'w hystyried;
- bod y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi argymell bod pob cyfarfod y BPLl yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer safonol;
- bod dwy gŵyn yn cael sylw ar hyn o bryd, a bod swyddogion yn gweithio gyda'r achwynwyr a gweinyddwyr y cynllun pensiwn i geisio dod o hyd i ateb.
- y bydd angen i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gwblhau arolwg blynyddol yng nghyfarfod nesaf y BPLl.

**4.4 PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi'r adroddiad;**

**(ii) cytuno i drefnu pedwar cyfarfod o'r BPLl y flwyddyn o fis Ebrill 2019 ymlaen**

5 CRONFA BENSIWN DYFED – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

5.1 Cyflwynodd PSC MacArthur yr adroddiad, ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweinyddu'r cynlluniau. Darparodd yr adroddiad sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Roedd y diweddariadau'n cynnwys y pynciau canlynol:

- Diweddariad Rheoleiddio
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- E-gyfathrebu
- Datganiadau Buddiannau Blynyddol
- Cysoni GMP
- Adroddiadau Ansawdd Data
- Fy Mhensiwn Ar-lein
- Llif gwaith

**5.2 PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a gofyn bod aelod o staff o Gronfa Bensiwn Dyfed, fel mater o arfer da, yn mynychu cyfarfod y BPLl bob blwyddyn.**

6 FY MHENSIWN AR-LEIN – SESIWN HYFFORDDI

6.1 Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid sesiwn hyfforddi ar Fy Mhensiwn Ar-lein, i ddangos ei allu i helpu aelodau sy'n derbyn pensiwn i reoli eu gwybodaeth am bensiwn.

6.2 Mynegwyd pryder am y nifer isel o aelodau a oedd wedi cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein. Cytunwyd y byddai pob cynrychiolydd undeb yn hyrwyddo'r system ar-lein i'w haelodau, gan nad yw'r datganiadau buddiannau blynyddol yn cael eu hanfon drwy'r post rhagor. Awgrymwyd y byddai canllaw byr i ddefnyddwyr yn fuddiol hefyd, i annog aelodau i ymuno. Gofynnodd yr aelodau am yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf am faint o staff oedd wedi cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein fel canran.

**6.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 PRISIAD GAD

7.1 Hysbysodd PSC MacArthur Aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf o ran prisiad GAD. Mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun wedi cyfarfod deirgwaith ers mis Medi er mwyn trafod canlyniadau dros dro prisiad 2016 a'r broses o gapio costau. Mae canlyniadau drafft y prisiad yn dangos toriad i 'derfyn isaf y cyfyngiad ar gostau '- h.y. bod y cynllun pensiwn yn costio llai na'r disgwyl. Felly, mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r SAB ar sut i newid y cynllun pensiwn er mwyn cywiro'r toriad hwn. Fodd bynnag, cafwyd gohebiaeth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau bod y mater hwn bellach wedi'i ohirio yn amodol ar ganlyniad dyfarniad y Llys Apêl yn achos diogelwch trosiannol FPS 2015.

7.2 Hysbyswyd yr Aelodau hefyd, bod prisiad GAD wedi cadarnhau cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr o 1 Ebrill 2019. Mae'r cynnydd wedi codi o ganlyniad i newid yng nghyfradd disgownt SCAPE. Rhoddwyd copi o'r cyflwyniad GAD i'r Aelodau a oedd wedi' i gyflwyno mewn cyfarfod SAB yn esbonio'r mater yn fanwl. Nodwyd bod yr arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd cyfraniad pensiwn blynyddol y cyflogwr yn cynyddu £1.2 m o fis Ebrill 2019. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio arian ychwanegol gan Drysorlys EM, ac mae'r gyllideb a osodwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei dderbyn. Fodd bynnag, nid yw'r mater hwn wedi'i gwblhau eto, ac mae'n parhau i fod yn risg ar gyfer 2019/20 ac ar gyfer y dyfodol.

**7.3 PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

8 UNRHYW FATER ARALL

8.1 Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn trefnu diwrnod hyfforddi Cymru gyfan ar gyfer aelodau'r BPLl. Bydd dyddiadau posibl yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau ac ar ôl hynny, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail y mwyaf o aelodau fydd ar gael.

8.2 Gofynnodd Duncan Stewart Ball am yr wybodaeth ddiweddaraf am Norman v Cheshire, a dywedodd ei fod yn awyddus i'r mater hwn gael ei ddatblygu. Cytunwyd y byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal y tu allan i'r cyfarfod.

8.3 Nodwyd y bydd Julie Brown yn dod yn Rheolwr Pensiynau ar 1 Ebrill, ac y bydd person newydd yn cael ei benodi i swydd y Pennaeth Cyllid.